# POLISI CAMERA AR Y CORFF

Dyddiad Cychwyn: Medi 2019

Dyddiad Adolygu Diwethaf: Hydref 2024

Dyddiad Adolygu Nesaf: Hydref 2027

Perchennog y Polisi: Tim Llywodraethu

Cyswllt Polisi: Aled P Davies, Pennaeth Llywodraethu, Llywodraethu@adra.co.uk

**CYNNWYS**

1. **SGÔP / PWRPAS**

2. **MANYLION Y POLISI**

3. **CANLLLAW DEDDFWRIAETHOL A STATUDOL**

4. **CYFRIFOLDEBAU**

5. **GWEITHDREFNAU - DEFNYDDIO CAMERÂU AR Y CORFF**

   - **TREFNIADAU DEFNYDD**
   - **YSTYRIAETHAU DIOGELU DATA**
   - **STORIO DATA**
   - **ADRODD AM DDIGWYDDIADAU**
   - **MONITRO**

6. **COFNOD O ADOLYGIADAU**

7. **CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

8. **DIOGELU DATA**

9. **ATODIAD - MAP PROSES**

## 1.0 SGÔP / PWRPAS

1.1 Mae'r polisi hwn yn egluro dull a'r ffordd y bydd Adra (Tai) Cyfyngedig yn defnyddio Camera ar y Corff i sicrhau bod Adra yn cydymffurfio â chod ymarfer a deddfwriaeth berthnasol.

1.2 Cyhoeddwyd Cod Ymarfer (Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth) (y 'Cod Ymarfer') yn 2013 gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu canllawiau ar y defnydd priodol ac effeithiol o systemau camerâu gwyliadwriaeth (sy'n cynnwys camera ar y corff) i awdurdodau perthnasol. Er nad yw 'landlord' neu 'landlord cymdeithasol' yn dod o dan y diffiniad o 'awdurdodau perthnasol', mae'r Cod Ymarfer yn annog gweithredwyr eraill a defnyddwyr systemau camerâu gwyliadwriaeth i fabwysiadu'r cod yn wirfoddol. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi 12 egwyddor y dylai gweithredwyr system eu mabwysiadu wrth ddefnyddio systemau gwyliadwriaeth. Mae'r polisi yn mynd i'r afael â'r 12 egwyddor sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer.

14. Y bwriad yw defnyddio Camera ar y Corff i:
- Ddiogelu staff wrth eu gwaith at ddibenion Iechyd a Diogelwch
- Atal ymddygiad treisgar neu gam-drin geiriol neu gorfforol yn erbyn staff
- Ddiogelu staff rhag honiadau ffug o ymddygiad amhriodol
- Cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd
- Darparu deunydd tystiolaethol pan fydd hynny yn briodol

1.4 Mae'r polisi yn gymwys i bob aelod o Staff Adra. Bydd angen i staff ddefnyddio'r cyfarpar yn unol â'r polisi.

## 2.0 MANYLION Y POLISI

2.1 Wrth ymgymryd â'u dyletswyddau rheoli tai, yn aml mae staff Adra yn agored i gam-drin geiriol a chorfforol, ac weithiau mae Adra yn derbyn cwynion am ymddygiad staff. Gall defnyddio camera ar y corff gynorthwyo i atal ymddygiad treisgar ac ymosodol ac atal sefyllfa rhag gwaethygu, a gellir ei ddefnyddio hefyd mewn achos lle ymosodwyd neu lle cafodd aelod o staff ei gam-drin. Gellid hefyd ei ddefnyddio i ymchwilio i gwynion am aelodau o staff. Gellid defnyddio'r camera sy'n gallu ffilmio fideo a recordio sain i recordio'r dystiolaeth yma.

2.2 Ni fydd y camera ar y corff yn cael ei ddefnyddio fel offer i gynorthwyo monitro staff Adra.

2.3 Ni fydd y camera ar y corff yn cael ei ddefnyddio fel offer ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu gudd-wylio oni bai bod Ynad wedi awdurdodi hynny ymlaen llawn o dan ddarpariaethau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

2.4 Rhaid defnyddio Camera ar y Corff bob amser at ddibenion penodol ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â nod dilys ac yn angenrheidiol i ddiwallu angen brys, ond dylid ystyried effaith hyn ar unigolion a'u preifatrwydd, a dylid adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau bod posib parhau i gyfiawnhau ei ddefnyddio.

2.5 Yn unol â'r Cod Ymarfer, i sicrhau tryloywder o ran defnyddio Camera ar y Corff, rhaid bod pwynt cyswllt wedi'i gyhoeddi i gael gafael ar wybodaeth a chwyno. Y pwynt cyswllt o fewn Adra fydd y Ganolfan Gyswllt (0300 123 8084).

2.6 Pan fydd angen defnyddio Camera ar y Corff i sicrhau nod dilys, a bod angen ei ddefnyddio ar frys, dylid ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gynorthwyo diogelwch y cyhoedd a gorfodi'r gyfraith gyda'r nod o atal ymddygiad treisgar a phrosesu delweddau o werth tystiolaethol.

## 3.0 CANLLAW DEDDFWRIAETHOL A STATUDOL

3.1 Mae'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth ganlynol yn gymwys i ddefnyddio Camera ar y Corff:

- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR) (DU)
- Rheoliadau Diogelu Data, Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddeb yr UE)
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Hawliau Dynol 2000
- Deddf Diogelu Rhyddid 2012
- Cod Ymarfer Camera Gwyliadwriaeth y Swyddfa Gartref
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: 'In the Picture: A data protection code of practice for surveillance cameras'

3.2 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n rheoleiddio'r Ddeddf hon ac mae wedi cyhoeddi canllawiau yn gysylltiedig gyda Chamera ar y Corff a'r ffordd maent yn dal 'data personol' a 'data personol sensitif'. Mae delweddau sydd wedi'u recordio sydd wedi'u hanelu at neu a fyddai o bosib yn adnabod unigolyn penodol yn 'ddata personol' ac mae hyn yn cynnwys delweddau a sain sydd wedi'u dal ar ddyfeisiau recordio o'r fath. Mae'r canllawiau yma hefyd yn cyfeirio at 'ddefnydd amlwg' sy'n golygu na ddylid gwisgo neu ddefnyddio'r cyfarpar mewn ffordd gudd.

3.3 Deddf Diogelu Data 2018: Mae’r ddeddf hon yn nodi’r darpariaethau ar gyfer prosesu data personol Mae Adra yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau. Gall unigolion gyflwyno cais am weld clipiau ffilm sydd wedi’u dal ar y camera ar y corff yn unol â’u hawliau o dan DPA 2018.

3.4 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000: mae’r ddeddf hon yn caniatáu mynediad cyffredinol at wybodaeth sy’n cael ei ddal gan gyrff cyhoeddus nad yw’n ddata personol.

3.5 Deddf Hawliau Dynol 1998: Mae Erthygl 6 yn rhoi’r hawl i gael gwrandawiad teg. Mae’n bosib defnyddio’r holl ddelweddau sy’n cael eu dal drwy ddefnyddio camera ar y corff mewn achosion y Llys a rhaid bod ffordd o ddiogelu’r delweddau drwy sicrhau bod trywydd archwilio yn yr un ffordd ag unrhyw eitem arall o dystiolaeth. Mae Erthygl 8 yn diogelu’ch hawl i barch am eich bywyd preifat, eich bywyd teuluol, eich cartref a’ch gohebiaeth.

3.6 Deddf Diogelu Rhyddidau 2012: Mae Rhan 2 yn creu rheoliad newydd ac yn cyfarwyddo’r Ysgrifennydd Gwladol i baratoi cod ymarfer, tuag at adnabod teledu cylch cyfyng a rhifau cofrestru ceir yn awtomatig. Mae Pennod 1 yn rhoi’r ddeddfwriaeth rheoleiddio llawn ynghylch teledu cylch cyfyng a thechnoleg camera gwyliadwriaeth arall sy’n berthnasol i god ymarfer a dehongliadau.

3.7 Cod Ymarfer Camera Gwyliadwriaeth y Swyddfa Gartref: ystyrir uniondeb unrhyw ddata fideo sy’n cael ei ddal yn unol â’r canllawiau statudol yma.

‘In the Picture’ gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth: ‘A data protection code of practice for surveillance cameras and personal information’: mae’r canllaw statudol hwn yn cyd-fynd gyda Chod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth y Swyddfa Gartref o ran cyfarpar teledu cylch cyfyng sy’n cael ei wisgo.

## 4.0 <u>CYFRIFOLDEBAU</u>

| Role | Responsibility |
|---|---|
| Pennaeth Llywodraethu | Mae'r Pennaeth Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod y Polisi yn cael ei roi ar waith. Mae'r swydd yma hefyd yn gyfrifol am adolygu'r Polisi. |
| Aelodau Panel Diogelwch Staff | Aelodau’r Panel i asesu pa nodiadau rhybudd i osod ar unigolion gan benderfynu os yw defnydd o gamerâu ar gorff yn angenrheidiol. |

| | |
|---|---|
| Aelodau Staff | Sicrhau defnydd y camerâu yn unol a'r Polisi hwn. |
| Rheolwyr | Sicrhau fod defnydd o'r camerâu yn cael eu monitro yn rheolaidd. |

## 5.0 GWEITHDREFNAU - DEFNYDDIO CAMERA AR Y CORFF

5.1 Mae'n ofynnol bod bob aelod o staff yn llofnodi dogfen Cytundeb Defnyddiwr i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisi hwn a'u bod yn cytuno i weithredu yn unol â'r polisi hwn. Gellir cael mynediad i'r Cytundeb Defnyddiwr ar Borth Hunan Wasanaeth Adra ar y linc dilynol: https://forms.office.com/e/rBRCnHWDs8. Mae Camera ar y Corff yn ychwanegol at ofynion hanfodol y Polisi Gweithio'n Unig a dylai offer camera gael ei ddefnyddio gyda dyfais gweithio'n unigol lle bo'n briodol.

5.2 Ni ddylid rhoi'r Camera ar y Corff ymlaen ar gyfer recordio trwy'r amser. Dylai'r Camera ond gael ei roi ymlaen:

- ar unrhyw adeg pan mae aelod o staff yn pennu bod ymddygiad trydydd parti yn fygythiol neu'n gamdriniol; a/neu
- pan mae gan aelod o staff pryderon rhesymol am eu diogelwch personol (neu ddiogelwch eraill); a/neu
- lle mae angen casglu tystiolaeth; a/neu
- os yw Panel Diogelwch Staff Adra wedi barnu y dylid defnyddio Camera ar y Corff mewn eiddo penodol/gydag unigolyn penodol oherwydd ymddygiad yr unigolyn yn y gorffennol neu ddigwyddiadau sydd wedi digwydd yn flaenorol mewn eiddo penodol.

5.3 Wrth ddefnyddio'r camera ar y corff rhaid i'r aelod o staff, lle bynnag mae'n bosib, hysbysu'r trydydd partïon bod y ddyfais recordio ymlaen. Dylid ystyried bod cofnodi sgyrsiau rhwng unigolion yn breifat a dylai defnyddwyr camerâu ar y corff sicrhau eu bod yn ymatal rhag recordio unrhyw beth sydd tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn sefyllfa o wrthdaro.

5.4 Bydd aelodau o staff yn ceisio lleihau recordio unigolion sy'n bresennol ond nad ydynt yn rhan o unrhyw ddigwyddiad drwy sicrhau bod ffocws y camera ar y digwyddiad ac nid ar y rhai sy'n sefyllian. (Ymyrraeth Gyfochrog)

### Ystyriaethau Diogelu Data

5.5 Ni ddylid storio mwy o ddelweddau a gwybodaeth na'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol at bwrpas penodol system camera gwyliadwriaeth a dylid dileu delweddau o'r fath pan nad oes eu hangen mwyach.

5.6 Eiddo Adra fydd yr holl ddelweddau ond efallai y bydd posib eu rhyddhau i drydydd parti yn yr amgylchiadau canlynol:

- Ceisiadau gan yr Heddlu am wybodaeth ynghylch digwyddiadau troseddol sydd o bosib wedi'u dal ar yr uned drwy amryfusedd.
- Ceisiadau gan yr heddlu am dystiolaeth yn gysylltiedig ag ymosodiad sydd wedi dod i'w sylw gan aelod o staff Adra.
- Ceisiadau am glipiau ffilm gan aelodau o'r cyhoedd.

5.7 Mewn amgylchiadau penodol, bydd angen ymgymryd â datganiad Effaith ar Ddiogelu Data.

**Storio Data**

5.8 Bydd yr holl ddata sydd wedi'i recordio yn cael ei ddileu ar ddiwedd wythnos waith y swyddog, oni bai bod digwyddiad fel y'i diffiniwyd yn Adran 2 wedi digwydd, o ganlyniad bydd y recordiad yn cael ei lawr lwytho a'i gadw am gyfnod o 30 diwrnod. Oni bai bod 6.2 yn gymwys, bydd holl recordiadau yn cael eu dileu'n barhaol ar ôl cyfnod o 30 diwrnod.

5.9 Bydd recordiadau Camera ar y Corff ond yn cael eu cadw am fwy na 30 diwrnod mewn achosion lle mae'r data yn dystiolaethol ac nad yw'r achos wedi dod i ben. Y Rheolydd Data priodol yn unig sy'n gallu cael mynediad at y recordiadau.

5.10 Bydd recordiadau sydd wedi'u cadw ond ar gael i'w hadolygu gan staff Adra a byddant ond yn cael eu gweld i ddatrys nod dilys fel at bwrpas mynd i'r afael gyda materion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Adrodd am Ddigwyddiadau**

5.11 Rhaid adrodd i'r Ganolfan Gyswllt cyn gynted â phosib ar 0300 123 8084 am unrhyw ddigwyddiad lle mae aelod o staff wedi goddef cam-drin corfforol neu eiriol.

**Monitro**

5.12 Rhaid i Reolwr Llinell gynnal gwiriadau monitor i sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'r polisi hwn. Bydd cydymffurfio â'r polisi hwn yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ym mhob sesiwn 1 i 1. Bydd y rheolwr llinell hefyd yn codi ar unwaith unrhyw achos o ddiffyg-cydymffurfio gyda'r aelod o staff dan sylw ac yn cytuno ar unrhyw gamau cywiro.

## 6. COFNOD O ADOLYGIADAU I'R BROSES HON

*[Rhowch wybodaeth am unrhyw adolygiadau a wnaethpwyd i'r polisi hwn gan gynnwys manylion ynghylch beth sydd wedi'i newid ers y fersiwn diwethaf a phwy sydd wedi addasu'r polisi].*

| **Rhifyn** | **Dyddiad** | **Sylwadau** (Beth sydd wedi'i adolygu?) | **Ysgrifennwyd gan** | |
|---|---|---|---|---|
| *1* | *01.09.2019* | Polisi Newydd | GJ | SLT |
| 2 | 15.12.23 | Wedi ei adolygu i adlewyrchu cyflwyno camerâu ar lefel gorfforaethol. | APD | TYC |
| 3 | 01.10.24 | Wedi'i adolygu i roi mwy o eglurder ynghylch pryd y gellir rhoi'r camera ymlaen | APD | APD |

## 7.0 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

7.1 Mae'r polisi hwn wedi'i adolygu yn erbyn y ddogfen sgrinio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a chadarnhawyd nad oes unrhyw oblygiadau o ran Deddf Cydraddoldeb 2010 lle mae angen asesiad neu fesurau lliniaru pellach.

## 8.0 Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

8.1 Mae'r polisi hwn wedi'i adolygu yn erbyn y ddogfen sgrinio Asesiad Effaith ar Ddiogelu Data ac wedi'i adolygu ymhellach fel rhan o asesiad DPIA llawn yn sgil prosesu data personol sensitif. Rhoddir holl fesurau diogelwch sydd wedi'u nodi ar waith dan oruchwyliaeth rheolwyr i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

## 9.0 Atodiad A

**PROSES**

Swyddogion Adra i ddefnyddio camera ar y corff wrth ymweld ag eiddo sydd wedi'i gynnwys yng nghofrestr diogelwch staff neu os ydynt yn teimlo eu bod mewn peryg o gam-drin geiriol neu gorfforol. Ffurflen Cytundeb Defnyddiwr i'w chwblhau a dilyn hyfforddiant cyn ei defnyddio.

↓

Swyddogion Adra i droi'r fideo ymlaen a hysbysu'r tenant eu bod yn recordio popeth sydd i'w weld a'i glywed.

↓

Ar ôl hynny, dylai'r Swyddog actifadu'r rhybudd coch ar eu dyfais Gweithio'n Unig os nad yw defnyddio'r camera yn lleddfu'r sefyllfa. Swyddog Gwasanaethau Bro i ddychwelyd i'w gerbyd ac adrodd ar y digwyddiad drwy ffonio Canolfan Gyswllt Adra a'r heddlu os oes angen.

↓

Os oes digwyddiad, swyddog i lwytho fideo o'r Camera ar y dreif a gyrru linc i'w Rheolwr Llinell a IDAA. Bydd unrhyw glipiau sydd wedi'u ffilmio mewn camgymeriad neu os nad ydynt yn dod o dan Adran 2 o'r Polisi hwn yn cael eu dileu ar ddiwedd yr un wythnos waith.

↓

Nodyn rhybudd i'w gynnwys ar gyfer yr eiddo dan sylw. Trafod y clipiau ffilm yng nghyfarfod nesaf y Panel Diogelwch Staff; camau cywiro i ddigwydd.

↓

Dylai pob clip gael eu dileu o'r Dreif 30 diwrnod ar ôl iddo gael ei greu heblaw bod ei angen fel tystiolaeth

Cais wedi dod i law gan Denant yn gofyn am glipiau ffilm. Rhannu'r clipiau ffilm drwy e-bost / fformat disg diogel.

Cais wedi dod i law gan y Gwasanaethau Brys am glipiau ffilm. Rhannu clipiau ffilm drwy e-bost diogel.